


Rhestr Ddarllen

# Addysg a Dysgu Gydol Oes

Dyddiad: **Mai 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.


**Cysylltwch â ni**

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6328**
**: Llyfrgell@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen

# Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Gwybodaeth Allweddol ar gyfer y Pumed Cynulliad

### Rhaglen Ddiwygio Dridarn

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi disgrifio Rhaglen Ddiwygio Dridarn ar gyfer Addysg. Mae hyn yn cynnwys cwricwlwm newydd; ailwampio addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon; a'r fargen newydd ym maes datblygiad proffesiynol i athrawon. Dyma'r prif ddogfennau sy'n berthnasol i'r diwygiadau hyn:

– Mae **Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes** yn amlinellu'r cynllun ar gyfer bwrw ymlaen ag argymhellion **Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru**, Adroddiad yr Athro Graham Donaldson am ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru.

– **Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yng Nghymru**, Adolygwyd ansawdd ac effeithiolrwydd Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon gan Ralph Tabberer.

– **Addysgu Athrawon Yfory** Adroddiad yr Athro John Furlong am ddyfodol Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon.

– Roedd Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet **Y fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg** yn egluro'r cysyniad sy'n sail i'r Fargen Newydd.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae **Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r Cod Drafft** yn cynnwys cynigion ynglŷn â system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc, 0-25 oed, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bwriedir cyflwyno'r Bil yn ystod y Pumed Cynulliad. Gweler **Blog y Gwasanaeth Ymchwil ar y pwnc hwn**.

### Addysg Uwch

Adolygiad Diamond, **Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr** . Mae'r Adolygiad yn cynnwys ehangu mynediad; y sgiliau sydd eu hangen yng Nghymru; cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser a'r ddarpariaeth i ôl-raddedigion; a chynaliadwyedd ariannol hirdymor. Adroddiad interim ffeithiol yw hwn a dylai adroddiad terfynol fod wedi'i gyhoeddi erbyn mis Medi 2016. Gweler **Blog y Gwasanaeth Ymchwil am y pwnc hwn.**

### Adroddiadau Etifeddiaeth

– Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad, **Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad** (PDF 3MB), Mawrth 2016.

– Pwyllgor Menter a busnes y Pedwerydd Cynulliad, **Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad** (PDF2MB), Mawrth 2016.

## Dogfennau Strategaeth a Pholisi

### Y Blynyddoedd Cynnar

Mae **Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant**) yn diffinio’r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei olygu wrth sôn am y blynyddoedd cynnar ac mae’n cyfleu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau a’r system sy’n eu cefnogi. Mae’n cynnwys gwybodaeth am iechyd a lles plant; teuluoedd; ac addysg a gofal plant. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dau adroddiad cynnydd.

### Ysgolion a Gwella Ysgolion

**Cymwys am Oes** yw cynllun gwella addysg Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr 3–19 oed yng Nghymru tan 2020. Mae’n gosod pedwar amcan strategol allweddol mewn perthynas â’r gweithlu; y cwricwlwm; cymwysterau; ac arweinyddiaeth. Cyhoeddwyd diweddariad am y cynnydd ar ffurf **Cerdyn Adroddiad** (PDF 206KB) ym mis Mawrth 2016.

Cyflwynwyd y **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd** mewn ysgolion ym mis Medi 2013 er mwyn gwella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Roedd yn gosod disgwyliadau ar gyfer safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn o’r Dosbarth Derbyn hyd Flwyddyn 9.

Trosolwg wedi’i ddiweddaru o weledigaeth y Llywodraeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yw’r **Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol - cynllun gweithredu strategol**.

Mae **Ailysgrifennu'r Dyfodol** yn sôn am yr hyn y gall ysgolion, drwy gydweithio â rhieni/gofalwyr, ei wneud i chwalu’r rhwystrau y mae plant o gefndiroedd **difreintiedig** yn eu hwynebu, drwy fod yn ganolbwynt ar gyfer ymyriadau a chymorth. Cyhoeddwyd diweddariad ym mis Gorffennaf 2015.

Mae’r **Strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg** yn dangos y cyfeiriad ar gyfer gwella addysgu a dysgu’r Gymraeg fel iaith, gan gynnwys yn benodol, y Gymraeg fel ail iaith.

Mae’r **Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol** yn sôn am gwmpas a rôl a swyddogaethau’r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol sydd wedi ysgwyddo a chyfuno swyddogaethau gwella ysgolion awdurdodau lleol.

Cynllun i wella a hybu Ieithoedd Modern Tramor yng Nghymru yw **Dyfodol Byd-Eang**.

### Addysg ôl-16

Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai’r Athro Ellen Hazelkorn yn arwain adolygiad o oruchwylio a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Mae’r adolygiad wedi’i gynnal gan gyfeirio’n benodol at rôl a swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn y dyfodol. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad terfynol yr Athro Hazelkorn: **Tuag at 2030: fframwaith ar gyfer adeiladu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru** (PDF 990KB), Mawrth 2016.

Roedd **Datganiad polisi ar sgiliau** yn canolbwyntio ar gyflogaeth a sgiliau ac yn ymwneud â phedwar maes blaenoriaeth: sgiliau ar gyfer swyddi a thwf; sgiliau sy’n ymateb i anghenion lleol; sgiliau y mae cyflogwyr yn rhoi gwerth arnynt; a sgiliau ar gyfer cyflogaeth.

Ategwyd hyn gan y **Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau** a oedd yn rhestru’r camau pwysig hyd 2016–17 i sicrhau system sgiliau cadarn a chydnerth ar gyfer Cymru.

Mae'r **Fframwaith ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau** yn cefnogi rhoi polisi Llywodraeth Cymru ar waith i aildafoli'r cyfrifoldeb am fuddsoddi mewn sgiliau. Mae'r fframwaith yn nodi'r buddsoddiadau sy'n cael eu tywys gan y llywodraeth a fydd yn parhau i helpu cyflogwyr i arwain o ran y sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu. Dylai'r fframwaith fod wedi'i roi ar waith yn llwyr erbyn 2017.

Nod y **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Nod y **Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid** yw rhoi sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd i bobl ifanc 5-25 oed i'w helpu i wireddu eu potensial.

## Addysg Uwch

Roedd y **Datganiad Polisi ar Addysg Uwch** yn dangos y cyfeiriad ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.

## Adolygiadau

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cafwyd nifer o adolygiadau ar bynciau penodol yn y cwricwlwm. Cafodd y rhain eu datblygu gan adolygiad yr Athro Donaldson gan mwyaf:

– Roedd **Llythrennedd Corfforol - dull Cymru gyfan ar gyfer cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol ymysg plant a phobl ifanc** yn cynnig argymhellion ynghylch sut i ddatblygu rolau ysgolion o ran cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol ymhlith plant a phobl ifanc.

– Roedd **Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4** yn ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i addysgu ac asesu Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 er mwyn galluogi mwy o ddysgwyr i ddefnyddio'r iaith.

– Yn **Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru** edrychwyd yn fanwl ar y berthynas rhwng sector y celfyddydau a'r sector addysg yng Nghymru.

– Roedd **Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru** yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y Cwricwlwm Cymreig yn cael ei ddarparu ar draws y cwricwlwm, a oes digon o bwyslais ar addysgu hanes Cymru a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r addysgu hwnnw.

– Yn **Adroddiad y Grŵp Llywio TGCh i Lywodraeth Cymru** ystyriwyd dyfodol cyfrifiadureg a TGCh mewn Ysgolion yng Nghymru.

Yn **Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar – adroddiad llawn** ystyriwyd a phrofwyd y systemau rheoleiddio ac arolygu ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar yng Nghymru gan nodi'r argymhellion ar gyfer gwella.

Mae **Improving Schools in Wales: An OECD Perspective** yn cynnig strategaeth gynhwysfawr i Gymru er mwyn helpu i sicrhau tegwch ac ansawdd yn ei system ysgolion gan adeiladu ar safbwynt cymharol (PDF 3.57MB).

Yn **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mathemateg - adroddiad ac argymhellion** ystyriwyd ystod o faterion ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda wrth addysgu a dysgu mathemateg yng Nghymru.

Mae **Adroddiad y Grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerdd yng Nghymru** yn cyflwyno canfyddiadau'r grŵp fu'n edrych ar rôl gwasanaethau cerdd awdurdodau lleol o ran helpu ysgolion i ddarparu addysg gerddorol o safon.

## Ffynonellau Data

### Llywodraeth Cymru

**System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion**. Bydd ysgolion yn cael eu rhoi mewn categorïau o wahanol liwiau ar sail ansawdd yr arweinyddiaeth, data am berfformiad, hunanarfarnu a'u gallu ehangach i wella. Prif bwrpas hyn yw dangos lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion unigol.

Mae **StatsCymru** yn cynnwys ystod o ddata gan Lywodraeth Cymru. Isod, gweler dolenni i ystadegau sy'n ymwneud ag addysg:

- **Ysgolion ac Athrawon.**
- **Gwariant awdurdodau lleol ar addysg.**
- **Addysg a hyfforddiant ôl 16.**
- **Cymorth i fyfyrwyr.**
- **Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** – ystadegau chwarterol.
- **Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur** – ystadegau blynyddol.
- **Arolwg Cenedlaethol Cymru** Mae'r arolwg yn cynnwys ystod o bynciau sy'n canolbwyntio ar les a barn pobl am wasanaethau cyhoeddus. Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys materion sy'n berthnasol i addysg megis barn rhieni am y system addysg.

Bwletinau a datganiadau ystadegol **addysg a sgiliau.**

- **Rhestr o gyfeiriadau ysgolion** yng Nghymru.
- **Mae'r wefan Fy ysgol leol yn cynnwys data ar lefel ysgol gan gynnwys cyflawniad academaidd, presenoldeb a chategoreiddio ysgolion.**

Ffynonellau ystadegau eraill:

- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru: **ystadegau.**
- **Higher Education Statistics Agency.**
- Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr: **Statistical Releases.**

## Gwybodaeth a allai fod o gymorth gyda Gwaith Achos

**Cod Trefniadaeth Ysgolion** a'r **Cynigion Ynghylch Trefniadaeth Ysgolion - Hysbysiad Hwylus** (PDF 300KB), Ionawr 2015.

**Codau Derbyn ac Apelau i Ysgolion.**

**Teithio i Ddysgwyr Canllawiau Gweithredol** (PDF 792KB).

**Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig** a **Papur Ymchwil AAA** (PDF 730KB).

**Ariannu ysgolion** – gwybodaeth am sut y mae ysgolion yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion** – er mai i lywodraethwyr ysgolion y'i bwriedir, mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r system addysg yng Nghymru.

**Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

– **Ariannu ôl-16 i ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu mewn colegau arbenigol** (Medi 2015). Cyfarwyddyd yw hwn am y broses a ddilynir gan Weinidogion Cymru i bennu cyllid ar gyfer lleoliadau dysgwyr, 16-25 oed, sydd ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol.

## Deddfwriaeth a basiwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad

Mae **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder, gwella ysgolion, trefniadaeth ysgolion, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, cyfarfodydd blynyddol i rieni, cwnsela mewn ysgolion, cynlluniau brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a thaliadau hyblyg am brydau ysgol.

Mae **Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014** yn cryfhau annibyniaeth sefydliadau Addysg Bellach a'u gallu i wneud penderfyniadau. Un o brif ddibenion y Bil oedd gwrthdroi ailgategoreiddio'r sector addysg bellach gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghymru.

Roedd **Deddf Addysg (Cymru) 2014** yn cynnwys sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg, gan ymestyn cofrestru a rheoleiddio athrawon i'r gweithlu addysg ehangach ac roedd yn galluogi cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion.

Mae **Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015** yn darparu ar gyfer fframwaith rheoleiddio a llywodraethu diwygiedig i addysg uwch yng Nghymru. Roedd yn diwygio swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), gan adlewyrchu'r ffaith bod sefydliadau bellach yn cael y rhan fwyaf o'u hincwm o ffioedd dysgu myfyrwyr yn hytrach na chan Lywodraeth Cymru drwy CCAUC.

Roedd **Deddf Cymwysterau Cymru 2015** yn darparu ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru yn gorff rheoleiddio annibynnol sy'n gyfrifol am gydnabod cyrff dyfarnu ac adolygu a chymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau gradd yng Nghymru.

## Gwefannau Defnyddiol

– **Estyn** Yn ogystal ag adroddiadau arolygu, mae Estyn yn cyhoeddi **adroddiadau thematig** am safonau ac ansawdd sy'n ymwneud ag amrywiaeth o bynciau ym maes addysg.

– **Cyngor y Gweithlu Addysg.**

– **Cymwysterau Cymru, rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau gradd yng Nghymru a sefydlwyd ym mis Medi 2015.**

Consortia Rhanbarthol:

– **Canolbarth y De.**

– **Ein Rhanbarth ar Waith** (Canolbarth a Gorllewin Cymru).

– **GWE** (Gogledd Cymru).

– **Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg** (De-ddwyrain Cymru).

– **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.**

– **Colegau Cymru.**

– OECD: **Programme for International Student Assessment (PISA).**